

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mai 2023

STATWS: GWYBODAETH/GWEITHREDU

CATEGORI: CYNLLUNIO

**Teitl: CANLLAWIAU AR GYFER YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI AR NEWIDIADAU
I WASANAETHAU IECHYD 2023**

Dyddiad yr Adolygiad Mai 2024

I'w weithredu gan:

Brif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Gweithredu
Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau

Angen gweithredu erbyn: parhaus

Anfonwr: Yr Athro Chris Jones

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:

CVBInfo@llyw.cymru

Dogfennau amgaeedig: Llythyr gyda dolen at y canllawiau

At: Holl Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru
Copïau at: Gyfarwyddwyr Cynllunio

Annwyl Brif Weithredwyr

CANLLAWIAU AR GYFER YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI AR NEWIDIADAU I WASANAETHAU IECHYD 2023

1. Mae'r GIG wedi esblygu'n barhaus ers ei sefydlu ar 5 Gorffennaf 1948. Byddai'r modd y rhoddir gofal i bobl heddiw wedi bod y tu hwnt i'r dychymyg ar yr adeg y sefydlodd Aneurin Bevan y gwasanaeth iechyd. Diolch i ddatblygiadau mewn technoleg, meddyginiaethau ac ymarfer clinigol, mae'r GIG bellach yn trin ac yn gofalu am bobl a fyddai, flynyddoedd maith yn ôl, wedi marw. Mae newid ac esblygu er mwyn cyflawni'r canllawiau clinigol diweddaraf yn elfen a welir yn gyson yn y GIG, ynghyd ag adborth gan gleifion a staff a chynnydd yn nisgwyliaidau'r cyhoedd. Felly, mae'n hollbwysig i newidiadau i wasanaethau gael eu cyflwyno'n effeithiol ac mae'n bwysig i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny gael dweud eu dweud o ran y modd y byddant yn derbyn gwasanaethau.
2. Diben y Cylchlythyr Iechyd hwn yw rhannu canllawiau sydd wedi eu diwygio a'u diweddarau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau iechyd. Nod y canllawiau yw rhoi arweiniad ac ysgogi cwestiynau trafod i sefydliadau'r GIG o ran y materion perthnasol i'w hystyried wrth iddynt fynd ati i gyflwyno newidiadau i wasanaethau.
3. Roedd y canllawiau gwreiddiol dros 10 mlwydd oed, ac maent wedi cael eu diweddarau ar ôl sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru, sy'n cael ei adnabod o dan yr enw Llais, sef ei enw gweithredol. Llais yw'r sefydliad sydd wedi disodli'r rhwydwaith o Gynghorau Iechyd Cymuned ers 1 Ebrill 2023.
4. Cafodd y canllawiau newydd hyn eu datblygu ar ôl ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Bwrdd yr hen Gynghorau Iechyd Cymuned gynt, cynrychiolwyr Llais, a'r GIG. Yn sgil yr ymgysylltu hwnnw daeth yn amlwg bod llawer o'r canllawiau blaenorol yn parhau'n briodol, ac felly mae'r canllawiau hynny wedi cael eu cynnwys, heb eu newid, yn y canllawiau diweddaraf.
5. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn ddogfen ar gyfer y GIG ynghylch y gwasanaethau y mae'r GIG yn eu comisiynu a'u darparu ar gyfer y cyhoedd, a dylai'r egwyddorion a amlinellir fod o gymorth wrth weithredu unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau hynny.
6. Wrth ddatblygu cynigion, rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru ystyried y Ddyletswydd Ansawdd, gan neilltuo amser ar gyfer casglu tystiolaeth ynghylch effaith y cynigion ar yr ymdrechion i wella gwasanaethau a chanlyniadau iechyd i bobl.
7. Er bod y Cylchlythyr hwn yn cael ei gyfeirio at Brif Weithredwyr, Prif Swyddogion Gweithredu a Chyfarwyddwyr Cynllunio, mae'n bwysig nodi

bod gan bob aelod o staff rôl allweddol i'w chwarae o ran cynhyrchu syniadau a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu newidiadau i wasanaethau'r GIG.

8. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: [Canllawiau ynghylch newidiadau i wasanaethau iechyd | LLYW.CYMRU](#)
9. Dylai'r canllawiau gael eu gweithredu o'r dyddiad cyhoeddi ymlaen. Disgwylir i'r canllawiau gael eu hadolygu ar ôl iddynt fod yn weithredol am flwyddyn.

Yn gywir,

YR ATHRO CHRIS JONES